

## Taflen Ffeithiau 16: Gweithredu fel Unigolyn Addas

Mae Taliadau Uniongyrchol ar gael i bobl sydd â'r diffyg galluedd meddyliol i gydsynio iddynt. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n ddyletswydd ar Gyngor Sir y Fflint i bennu rhywun i weithredu ar ran yr unigolyn sydd â'r diffyg galluedd meddyliol. Gelwir yr unigolyn hwn yn 'Unigolyn Addas'.

Os ydych yn ystyried gweithredu fel 'Unigolyn Addas' i dderbyn Taliadau Uniongyrchol ar ran rhywun sydd heb y gallu, efallai y bydd yr wybodaeth ganlynol yn ddefnyddiol.

### Cael eich penodi yn Unigolyn Addas

- Nid oes modd i chi benderfynu bod yn Unigolyn Addas Mae'n rhaid i Gyngor Sir y Fflint gytuno mai chi yw'r unigolyn mwyaf addas i gyflawni'r rôl.
- Byddwch yn gweithredu fel Unigolyn Addas ar ran oedolyn sydd â'r diffyg galluedd meddyliol i gydsynio i dderbyn Taliadau Uniongyrchol.
- Mae'n rhaid i chi fod yn barod ac yn fodlon gweithredu fel Unigolyn Addas.
- Mae modd i chi gael cymaint o gefnogaeth ag y bydd ei hangen arnoch i reoli'r Taliad Uniongyrchol.

Gall y cyngor eich cefnogi wrth ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol, gwasanaethau cyflogau, recriwtio a rheoli cynorthwywyr personol, a chwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ymysg gwasanaethau eraill

### Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

- Mae'n rhaid i chi ddilyn arfer dda wrth wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn sydd â'r diffyg galluedd meddyliol a gweithredu er budd yr unigolyn hwnnw.
- Fel Unigolyn Addas, rydych yn atebol am y ffordd y caiff y Taliadau Uniongyrchol eu defnyddio.
- Dylech gynnwys yr unigolyn sydd â'r diffyg gallu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, a rhoi cymaint o reolaeth ac annibyniaeth iddynt â phosibl.
- Rydych yn cytuno i roi gwybod i Gyngor Sir y Fflint am unrhyw newidiadau neu anawsterau, neu cyn gynted ag y credwch fod yr unigolyn wedi adennill y gallu.
- Byddwch yn arwyddo cytundeb gyda Chyngor Sir y Fflint yn ymwneud â defnyddio Taliad Uniongyrchol, ac mae'n rhaid i chi gadw at y telerau.
- Wrth wneud trefniadau, gall y rôl gynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol – er enghraifft cyflogi staff.
- Os ydych yn cyflogi cynorthwywyr personol, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn gweithredu'n gyfreithlon fel cyflogwr. Os byddwch yn defnyddio asiantaeth, cyfeiriwch at daflen ffeithiau 4 am gyngor ynglŷn â defnyddio asiantaethau a chadw'n ddiogel.
- Os byddwch yn penderfynu rhoi'r gorau i weithredu fel Unigolyn Addas, mae'n rhaid i chi gysylltu â Chyngor Sir y Fflint cyn gynted ag y penderfynwch nad ydych am barhau â'r rôl hon.
- Os yw gallu'r unigolyn yr ydych yn ei gynrychioli yn gyfnewidiol, mae'n rhaid i chi sicrhau yn ystod y cyfnodau pan fyddant yn adennill gallu, eich bod yn eu cynnwys gymaint â phosibl mewn penderfyniadau ymarferol.

- Ni ddylech ddefnyddio'r Taliadau Uniongyrchol i sicrhau gwasanaethau gan briod, partner sifil neu bartner yr unigolyn, neu berthynas agos, priod neu bartner i berthynas agos sydd ar hyn o bryd yn byw ar yr un aelwyd, heb fod wedi ceisio caniatâd gan Gyngor Sir y Fflint yn gyntaf. Efallai y bydd achlysuron pan fydd y Cyngor yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i'r Unigolyn Addas ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i sicrhau gwasanaethau o'r fath, ond mae sefyllfaoedd fel hyn yn debygol o fod yn eithriadol a mabwysiadir dull sydd er budd gorau'r unigolyn.

- Mae'n rhaid i chi agor cyfrif banc ar wahân ar gyfer Taliadau Uniongyrchol a rhoi'r manylion a geir ar y ffurflen orfodol y banc, i Gyngor Sir y Fflint.

- Er nad yw Cyngor Sir y Fflint am eich digalonni wrth i chi ystyried gweithredu ar ran unigolyn sydd â diffyg gallu, mae'n rhaid i ni sicrhau eich bod yn ymwybodol y gellir cael unrhyw un sy'n gweithredu fel Unigolyn Addas yn euog o dwyll os byddant yn cam-drin eu safle yn anonest, yn bwriadu cael budd iddynt eu hunain, neu eraill, ac yn achosi colled neu yn gwneud yr unigolyn yn agored i berygl neu golled.

### **Cadw'n Ddiogel**

- Mae Cyngor Sir y Fflint yn mynnu fod gwiriadau cofnodion troseddol (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwirio) yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw un a gyflogir gennych fel yr Unigolyn Addas i wneud gweithgaredd a reoleiddir gyda'r unigolyn sydd â diffyg galluedd meddyliol.

- Mae'n rhaid i chi siarad gyda gweithiwr o Gyngor Sir y Fflint fydd yn eich cynghori pa bryd mae angen gwneud gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unrhyw un yr ydych yn cysylltu â nhw i ddarparu gwasanaethau.

- Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gofyn i chi wneud gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os ydych am ddod yn Unigolyn Addas penodedig ac nad ydych yn aelod o'r teulu neu yn briod. Er enghraifft, brocer gofal annibynnol, cyfreithiwr nad yw'r unigolyn sydd â'r diffyg gallu yn ei adnabod yn barod. Ni ellir eich pennu hyd nes y bydd y gwiriad hwn wedi ei gwblhau.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol ar gael i ddarparu gwybodaeth a chymorth ynglŷn â'ch safle fel Unigolyn Addas Penodedig. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r tîm ar unrhyw adeg os nad ydych yn sicr o rywbeth.

### **Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol**

**Rhif ffôn:** 01352 701100

**E-bost:** [dp.support@flintshire.gov.uk](mailto:dp.support@flintshire.gov.uk)